

# Cwpan y Byd: Chwarae teg?

Defnyddio Cwpan y Byd i archwilio  
anghydraddoldeb



**OXFAM**

# Sesiwn Gymraeg

Pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion?



OXFAM

# Beth yw anghydraddoldeb?

Gellir ystyried anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'u cymharu â grwpiau eraill o bobl. Mae bron fel edrych ar ba mor fawr yw'r darn o gacen sydd gan un person o'i gymharu â'r darn sydd gan berson arall.




# Meddwl am anghydraddoldeb

Nid yw anghydraddoldeb yn ymwneud yn unig â sut y caiff arian ei rannu rhwng, ac o fewn, gwledydd. Gall hefyd fod anghydraddoldeb yn y math o brofiadau y caiff pobl mewn bywyd.



# Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

- Meddylwch am enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod neu rhwng merched a bechgyn.
- Beth ydych chi'n credu yw'r rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn?



Dim ond 100 mlynedd yn ôl y cafodd rhai menywod yr hawl i bleidleisio yn y DU. Heddiw, y mae gan fenywod yr hawl i bleidleisio ym mron pob gwlad yn y byd.

Mae mwy o fenywod yn gweithio am dâl.



Mae mwy o ferched yn mynd i'r ysgol nag erioed o'r blaen.

Mae cyfreithiau mewn grym ledled y byd i gefnogi anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.



# Cyfleoedd Anghyfartal

- Mae mwyafrif y rhai sy'n byw mewn tlodi yn fenywod ac yn ferched.
- Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn gwaith â chyflog isel. Maent yn ennill llai o gyflog am wneud yr un rolau, a hefyd maent yn aml yn y rolau sy'n derbyn llai o gyflog.
- Ar gyfartaledd, mae menywod yn gwneud dwywaith cymaint o waith gofal di-dâl â dynion, megis gofal plant a gwaith tŷ – weithiau 10 gwaith cymaint, yn aml ar ben eu gwaith cyflogedig.
- Dim ond 23% o seneddwyr ledled y byd sy'n fenywod.



# Y dyfodol delfrydol

